# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 05/10/2023 i'w hateb ar 10/10/2023

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ60037 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud o effaith busnesau cydweithredol ar economi Cymru?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

2 OQ60042 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am effeithiolrwydd gwasanaethau strôc?

**Ken Skates** *De Clwyd*

3 OQ60068 **(e)**

Beth yw polisi Llywodraeth Cymru ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ60074 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu tyfu'r economi yng Ngorllewin De Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5 OQ60085 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â thaliadau sefydlog trydan yng Ngogledd Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

6 OQ60053 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu unrhyw welliannau penodol i wasanaethau iechyd meddwl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dros y 12 mis diwethaf?

**Hefin David** *Caerffili*

7 OQ60055 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gradd-brentisiaethau?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

8 OQ60035 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae'r Prif Weinidog wedi'i rhoi i'r goblygiadau i Gymru yn sgil llythyr y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol at Brif Weinidog y DU ar 2 Hydref 2023?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

9 OQ60047 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o ba mor barod yw busnesau lleol ar gyfer pryd y daw Deddf Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) i rym?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

10 OQ60060 **(e)**

Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i drefniadau teithio i ddysgwyr yn y bil bysiau sydd ar ddod?

**Buffy Williams** *Rhondda*

11 OQ60080 **(e)**

Sut bydd gwaith trydaneiddio Metro De Cymru o fudd i gymudwyr sy'n teithio i ac o'r Rhondda Fach a'r Rhondda Fawr?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

12 OQ60036 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar wella ansawdd dŵr yn Sir Benfro?